


Mynegi Barn



AR Y WOC

Hafan

Gwybodaeth

Cwestiynau

Lluniau

Cysylltu â ni



Mae'n cŵl! Mae'n gyflym. Mae'n hwyl!

Beth ydy e? Rasio ar [woc](#). Ie, rasio ar [woc](#)!

Fel arfer, mae pobl yn [defnyddio](#) wocs yn y gegin i wneud bwyd ond yn yr Almaen mae rhai pobl yn [defnyddio](#) wocs [ar gyfer](#) rasio.

Sut maen nhw'n rasio?

- Maen nhw'n eistedd ar y [woc](#).
- Maen nhw'n rasio i lawr trac [arbennig](#), e.e. trac bobsled.

Mae [gwaelod](#) y [woc](#) yn eitha' [crwn](#), felly mae'r bobl yn [troelli](#) ar y [woc](#) ac maen nhw'n [bwrw](#) i mewn i waliau'r trac weithiau.

Dillad

Mae rasio ar [woc](#) yn eitha [peryglus](#). Felly, maen nhw'n gwisgo:

- helmed beic modur

- menyg [trwchus](#)
- siaced [drwchus](#)
- padiau hoci.

Os ydych chi eisiau gweld rasio ar [woc](#), cliciwch yma:

https://www.youtube.com/watch?v=18C-KK9I_Ec

https://www.youtube.com/watch?v=j5-FcE7_PzI

Mae pencampwriaeth rasio
woc y byd yn cael ei chynnal
yn Oberhof, yr Almaen.



woc	wok
defnyddio	(to) use
ar gyfer	for
arbennig	special
gwaelod	base, bottom
crwn	round
troelli	(to) spin



bwrw

(to) hit

perylus


dangerous

trwchus


thick

pencampwriaeth

championship



MMM – SIOCLED!



Annwyl Chris,
Sut mae – a sut mae Mot?



Dw i'n [aros](#) yng Nghwlen (Cologne), [yr Almaen](#), gyda Dad a dw i'n cael amser grêt. Mae'r ddinas yn hardd ac mae [llawer o bethau](#) i wneud ac i weld yma.


Mae'r tywydd yn wych – mae hi'n braf a heulog bob dydd. Heddiw, dw i wedi gweld siocled; dw i wedi dysgu am siocled; dw i wedi [blasu](#) siocled; dw i wedi gwneud siocled a dw i wedi bwyta siocled (llawer o siocled!) yn yr [amgueddfa](#) siocled! Gwych – a blasus iawn! Dw i wedi [prynu](#) siocled i fy ffrindiau i gyd – [byddan nhw'n](#) hapus iawn, dw i'n meddwl.

[Wela i di](#) ddydd Sadwrn – [edrych ymlaen](#) (ond dw i ddim yn [edrych ymlaen at](#) adael Cwlen!)

Cariad,
Jo



aros	to stay
Yr Almaen	Germany
llawer o bethau	lots of things
blasu	(to) taste
amgueddfa	museum
prynu	(to) buy
byddan nhw'n	they will be
Wela i di ...	See you ...
edrych ymlaen (at)	(to) look forward (to)
gadael	(to) leave





FFASIYNOL

Edrychwch ar y sioe sleidiau yma.



Sleid 1



Sleid 2



Sleid 3



Sleid 4

Beth ydych chi'n gallu gweld yn y sleidiau?

Ewch i Dasg 1.


[Polimoda Fashion Show 2010](#) gan [Filippo Tomasi](#); fe'i defnyddir o dan [CC BY](#).

[Polimoda Fashion Show 2010](#) gan [Filippo Tomasi](#); fe'i defnyddir o dan [CC BY](#).

CREISION GWAHANOL

Rydych chi'n mynd i wylïo fflim. Dyma ychydig o help i chi os oes angen.

cwmni	company
rhoi eich barn chi	(to) give your opinion
blasus	tasty, delicious
sbeislyd	spicy
hallt	salty
halen	salt
gormod	too much
melys	sweet
mefus	strawberries
betys	beetroots
braidd yn ...	rather ...
cnau mwnci	peanuts
cnau	nuts
y rhain	these



Merch:	Esgusodwch fi, ydych chi'n hoffi creision?	Girl conducting survey on the street.
Bachgen:	Ydw. Wrth gwrs.	
Merch:	Dw i'n gweithio i gwmni creision ac rydyn ni'n gwneud creision newydd.	
Bachgen:	O?	
Merch:	Ga i ofyn cwestiynau i chi?	
Bachgen:	Cewch.	
Merch:	lawn ... Yn gyntaf, eich enw chi ... beth ydy'ch enw chi?	
Bachgen:	Will Rees.	
Merch:	Diolch, Mr Rees. Dw i eisiau i chi fwyta creision ...	She writes his name on her clipboard.
Bachgen:	O, gwych!!!	
Merch:	... ac yna roi eich barn chi .	
Bachgen:	Grêt. Bwyta creision ... ac yna rhoi barn. Ardderchog!	
Merch:	Diolch. Creision A:	Offers him some crisps on a plate, labelled Creision A . He takes one and eats – pulls faces as he eats it – it's rather spicy.
Bachgen:		

Mmm – eitha blasus . Eitha sbeislyd .	
Merch:	She writes on her clipboard. She offers another flavour – on another plate – Creision B .
Merch:	“Eitha sbeislyd .” Diolch. Creision B :
Bachgen:	He pulls faces – rather salty.
Bachgen:	Mmm – iawn – eitha hallt .
Merch:	Hallt ?
Bachgen:	Ie – hallt – mae gormod o halen ar y creision yma.
Merch:	She writes on her clip board and offers a third plate – Creision C. These crisps should be pink, e.g. beetroot crisps. He looks at them - holds one up and then eats. She writes down his comments on the clip board.
Merch:	Diolch. Creision C .
Bachgen:	Lliw diddorol. Blasus ond gwahanol.
Merch:	“ Blasus ond gwahanol.”
Bachgen:	Eitha melys , dw i’n meddwl. Ga i un arall os gwelwch yn dda?
Merch:	Cewch, wrth gwrs.



Bachgen:

Na ... dw i ddim yn hoffi creision C.

Merch:

Pam?

Bachgen:

Maen nhw'n [felys](#) ... yn **rhy** [felys](#).

Beth ydyn nhw?

Merch:

Creision [mefus](#) a [betys](#).

Bachgen:

Creision [mefus](#) a [betys](#)? Ych a fi!

Merch:

Diolch am eich barn chi.

Shakes his hand and he walks off.

Merch:

Esgusodwch fi, ydych chi'n hoffi creision?

Same procedure with another young woman.

Merch 2:

Wrth gwrs.

Merch:

Dw i'n gweithio i [gwmni](#) creision ac rydyn ni'n gwneud creision newydd.

Merch 2:

O?

Merch:

Ga i ofyn cwestiynau i chi os gwelwch yn dda?



Merch 2: Cewch.

Merch: lawn ... Yn gyntaf, eich enw. Beth ydy'ch enw?

Merch 2: Sioned Williams.

She writes her name.

Merch: Diolch. Dw i eisiau i chi fwyta creision ...

Sioned: lawn!

Merch: ... ac wedyn [rhoi eich barn chi](#).

Sioned: Grêt - bwyta creision a rhoi barn. Dim problem!

Merch: Diolch. **Creision A:**

Sioned: Mmm - [braidd yn sbeislyd](#).

Merch: Ydyn nhw'n **rhy** [sbeislyd](#)?

Sioned: Ydyn - maen nhw'n **rhy** [sbeislyd](#) i fi. Beth ydyn nhw?

Merch:
Creision cyrri.

Sioned:
Bobl bach!

Merch:
Diolch. **Creision B:**

Sioned:
Mmm – [braidd yn hallt](#).

Merch:
[Hallt?](#)

[Braidd yn hallt](#).
Sioned: Maen nhw fel [cnau mwnci](#) gyda gormod o [halen](#). Dydy'r creision yma ddim yn iach – mae gormod o [halen](#) ar y creision yma. Beth ydyn nhw?

Merch:
Creision [cnau](#) ... iawn ... **Creision C.**

Sioned:
Lliw diddorol www, gwahanol ... [braidd yn felys](#). Dw i'n hoffi'r [rhain](#).
Beth ydyn nhw?

Merch:
Creision [mefus](#) a [betys](#).

Sioned:
Waw – creision [mefus](#) a [betys](#)? Diddorol iawn. Mae'r [rhain](#) yn iach – [betys](#) a [mefus](#) – dyna ddau o'r "pump bob dydd".

Merch:
Pardwn?

Sioned: Pump bob dydd ...

She still looks puzzled.

Sioned: ... five a day.

Merch: O, wrth gwrs. Diolch am eich barn chi.

Shakes her hand and she walks away.

Edrychwch:

Dw i eisiau creision. I want some crisps.

Dw i eisiau help. I want help.

OND os oes person arall:

Dw i eisiau **i** chi **f**wyta creision. I want you to eat some crisps.

Dw i eisiau **i** chi ateb cwestiynau. I want you to answer some questions.

Hefyd:


Dw i eisiau **i** chi **w**rando. I want you to listen.

Dw i eisiau **i** chi **d**darllen. I want you to read.

Dw i eisiau **i** chi ysgrifennu. I want you to write.

Dw i eisiau **i** chi **w**ylïo'r ffilm. I want you to watch the film.

Beth ydy'r patrwm?



HWYL!

Jo: Wyt ti eisiau dod i drampwaliao gyda fi?

Ceri: Trampwaliao? Beth ydy trampwaliao?

Jo: “Trampwalling”?

Ceri: Beth ydy “trampwalling”?

Jo: Wel, dyma [gliwiau](#) i ti - mae’n hwyl ... mae’n wych ... mae’n [berylus](#).

Ceri: Beth? ... (yn ystyried)

Jo: Wyt ti eisiau [mwy o gliwiau](#)?

Ceri: Ydw, os gwelwch yn dda.

Jo: Rhaid neidio ar drampolîn.

Ceri: O – trampolinio.

Jo: Na – dim trampolinio.

Ceri: Dim trampolinio? Ond “rhaid neidio ar drampolîn.”

Jo: Rhaid neidio a neidio ar y trampolîn ... rhaid neidio a neidio – yn [uchel](#) iawn – ac yna rhaid [glanio ar ben](#) wal.

Ceri: Beth? Neidio ... a [glanio ar ben](#) wal?

Jo: Dyna ni – neidio a [glanio ar ben](#) wal ... ac yna neidio i lawr ar y trampolîn a dechrau eto. Wyt ti eisiau dod?

Ceri: Wel, ... mmm ... ble wyt ti'n mynd?

Jo: I'r [ganolfan](#) drampwalio. Mae [canolfan](#) newydd yn y dref.

Ceri: lawn – faint o'r gloch?

Jo: Tua hanner awr wedi pedwar? [Dere](#) i fy nhŷ i am hanner awr wedi pedwar.

Ceri: Beth mae pobl yn gwisgo i drampwalio?

Jo: Dillad trampolinio.

Ceri: [Wela i di.](#)

Jo: [Wela i di.](#)






Ydych chi eisiau gweld pobl yn trampwaliao?

Cliciwch yma:

<https://www.youtube.com/watch?v=X29nipwWQFM>


<http://hkpklv.com/classes/trampwall/>

cliwiau	clues
perylus	dangerous
mwyo	more
uchel	high
glanio	(to) land
ar ben	on top of
canolfan	centre
dere	come
wela i di	see you



GWAEL!

Edrychwch ar y lluniau ac atebwch y cwestiynau [cyn](#) clicio ar yr ateb.



Beth ydy hwn?

Llun - [paentiad](#) - ydy hwn.

Pa liwiau sydd yn y llun?

Glas, coch, melyn, oren a du.

Pwy ydy'r artist?

Does dim enw ar y llun.

Beth ydy teitl y llun?

Does dim teitl ar y llun.



Ble mae'r llun?

Yn y *Museum of Bad Art* ym Massachusetts, Gogledd America.



Beth ydy hwn?

Paentiad ydy hwn.

Pa liwiau sydd yn y llun?

Gwyrdd, oren, melyn a du.

Pwy ydy'r artist?

William F. Murphy.

Beth ydy teitl y llun?

"Drilling for eggs" - Drilio am wyau.

Ble mae'r llun?

Yn y *Museum of Bad Art* ym Massachusetts, Gogledd America.

The Museum of Bad Art - Amgueddfa Celf Wael

Mae'r [amgueddfa](#) ym Massachusetts, Gogledd America ac ar-lein:

<http://www.museumofbadart.org/collection/>

Beth sydd yn yr [amgueddfa](#)?

Celf wael – lluniau [gwael](#), paentiadau [gwael](#) ...
ond ...

lluniau cyffrous, lliwgar – dydyn nhw ddim yn ddiflas!

Pwy ddechreuodd yr [amgueddfa](#)?

Scott Wilson.

Pwy oedd e?


Roedd e'n gwerthu [hen bethau](#).

Sut ddechreuodd e'r [amgueddfa](#)?

Un diwrnod, gwelodd e lun ar y [palmant](#) – roedd y llun gyda'r sbwriel, yn [aros am](#) y lori [sbwriel](#). Cymerodd e'r llun. [Dangos](#)odd e'r llun i ffrind, Jerry Reilly. Roedd e'n hoffi'r llun. Fe wnaethon nhw [ddechrau casglu](#) lluniau [gwael](#).


Diddorol!

cyn	before
paentiad	painting
amgueddfa	museum
gwael	bad
dechrau	(to) begin
gwerthu	(to) sell





hen bethau	antiques
palmant	pavement
aros am	(to) wait for
sbwriel	rubbish
cymryd	(to) take
dangos	(to) show
casglu	(to) collect





AR Y STRYD


Edrychwch ar y ddau lun yma ac ewch i **Dasg 1**.

Llun 1



Llun 2





Detroit

Mae'r [tai](#) yn y lluniau yn Detroit, yng Ngogledd America.

Mae problemau mawr mewn [rhai ardaloedd](#) yn Detroit - dim gwaith ... dim arian.
Edrychwch ar y lluniau yma.

Llun 3



Llun 4



Mae'r strydoedd yn ddiflas. Mae'r [tai](#)'n [dywyll](#). Mae'r gerddi'n [flêr](#) neu'n [anniben](#). Mae problemau eraill hefyd - [cyffuriau](#) a [gynnu](#). Mae'n [ardal](#) drist.

Prosiect Heidelberg

Achos y problemau, [penderfyn](#)odd un artist helpu'r [ardal](#). Sut? Edrychwch yn ofalus ar y lluniau nesa - dyma brosiect arbennig ar Stryd Heidelberg, Detroit:



Llun 5



Llun 6




Yn 1986, dechreuodd yr artist Tyree Guyton a grŵp o blant yr [ardal](#) wneud gwaith celf yn y stryd. [Clirion](#) nhw'r sbwriel a dechreuon nhw beintio'r [tai](#) a gwneud gwaith celf. Roedden nhw'n defnyddio'r sbwriel yn eu gwaith celf.

Heddiw, mae Stryd Heidelberg, y coed, y [tai](#) a'r [adeiladau](#)'n lliwgar ac yn hyfryd. Hefyd, mae Tyree Guyton a'r plant wedi rhoi [cerfluniau](#) yn y stryd, fel y rhain:

Beth ydych chi'n meddwl?

tai	houses
rhai	some
ardaloedd	areas
tywyll	dark
blêr	untidy
anniben	untidy
cyffuriau	drugs
gynnuau	guns






penderfynu (to) decide

ardal area

clirio (to) clear

adeiladau buildings

cerfluniau sculptures



YR HEN A'R NEWYDD

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Cyn gwyllo, dyma ychydig o help i chi os oes angen.

cenhinen	leek
baner	flag
uwchgylchu	(to) upscale
wedi ei uwchgylchu	upscaled
doleri	dollars
anrheg	present
pecyn	pack



Reit ... beth nesaf?

Na ... Mm ... na, dw i ddim yn meddwl.

Beth am rosét?

Carwyn:

Perffaith ... a beth am [genhinen](#) fach?

Na – beth am gennin Pedr... a beth am [faner](#) Cymru?

Gwych.

Syniad da.

Perffaith.

Carwyn:

Aled ...

Carwyn:

Helo, Aled.

Aled:

Sut wyt ti, Carwyn? ... Rwy'ti'n brysur.

Carwyn:

Ydw, dw i'n brysur iawn.

Aled:

Beth wyt ti'n gwneud?

Carwyn:

Dw i'n [uwchgylchu](#) ...

Aled:

Pardwn?

Carwyn:

Uwchgylchu ... dw i'n [uwchgylchu](#).

Aled:

Beth ydy "[uwchgylchu](#)"?

Carwyn:

Dw i'n defnyddio **hen** bethau i wneud pethau **newydd**.

Aled:

O? Defnyddio **hen** bethau i wneud pethau **newydd**?

Carwyn:

Edrycha ... Dyma hen bâr o sbectol haul.

Aled:

Ie?

Carwyn:

Dw i'n mynd i [uwchgylchu](#)'r sbectol haul.

Aled:

Ond sut?

Carwyn:

Mmmm

Carwyn:

Da-ra. Cŵl!

Aled:

Ie... neis – dw i'n meddwl.

Carwyn:

Edrycha ar yr het yma.

Aled: Ie?

Carwyn: Roedd yr het yn **hen** – yn ofnadwy.

Aled: Ie?

Carwyn: Nawr, mae'r het yn cŵl.

Aled: Yn cŵl?!?!?

Carwyn: Yn cŵl iawn – edrycha ... [baner](#) Cymru ... a rosét - a chennin Pedr fach.
Wyt ti'n mynd i wisgo'r het?

Aled: Wrth gwrs, Aled bach ... wrth gwrs.

Carwyn: Pryd?

Aled: Yn y gêm rygbi nesaf.

Carwyn: O ... !?!?!

Aled: Rwy'ti'n mwynhau [uwchgylchu](#), 'te?

Ydw. Dw i wrth fy modd.

Carwyn:

Carwyn: Edrycha ... tiwb creision ...

Aled: Ie?

Carwyn: A dyma diwb creision arall – [wedi ei uwchgylchu](#).

Aled: Neis iawn.

Carwyn: Edrycha – dw i'n mynd i roi peniau, peniau ffelt, pensil a phren mesur yn y tiwb ar y ddesg.

Aled: O, gwych. Mae [uwchgylchu](#)'n llawer o hwyl.

Carwyn: Mae'n ddiddorol.

Carwyn: Dyma'r prosiect nesaf.

Aled: Bobl bach! ... Beth ydy e?

Carwyn: Bwrdd bach.


Aled: Ond Carwyn – arian ydy hwn – edrycha – [doleri](#).

Carwyn: [Doleri](#)?!?

Aled: Ie, [doleri](#).

Carwyn: Dim problem.

- Aled:** Beth? Wyt ti'n mynd i ddefnyddio [doleri](#)?
- Carwyn:** Nac ydw. Dw i'n mynd i ddefnyddio papur newydd. Edrycha.
- Aled:** O, papur newydd ...
- Aled:** O ... dw i'n gweld.
- Carwyn:** Wyt ti eisiau helpu?
- Aled:** Mmm – iawn.
- Carwyn:** Grêt, ond cyn i ni ddechrau ...
- Aled:** Beth ydy hwn?
- Carwyn:** [Anrheg](#).
- Aled:** [Anrheg](#)?
- Carwyn:** [Anrheg](#) i ti.
- Aled:** O, ga i agor yr [anrheg](#)?
- Carwyn:** Wrth gwrs.
- Aled:** Beth sydd yn y [pecyn](#)? O, dw i'n hoffi cael anrhegion.
- Aled:** O ... mmm ... wel ... diolch yn fawr.
- Carwyn:** Wyt ti'n hoffi'r [anrheg](#)?
- Aled:** Mmm, ydw, mae'n wych.
- Carwyn:** Iawn – beth am ddechrau [uwchgylchu](#)'r bwrdd?





DIDDOROL!

Edrychwch yn ofalus ar y sioe sleidiau yma ac yna ewch i Dasg 1.

Sleid 1



Sleid 2






Sleid 3



Sleid 4





Sleid 5



Sleid 6





'Nôl

Nesaf

Mae'r pethau yma [wedi torri](#) neu maen nhw'n [hen](#). Dyma'r pethau mae llawer o bobl yn [taflu](#) yn y bin sbwriel – neu yn y bin ailgylchu. “Sbwriel” ydy'r pethau yma. Ydych chi'n cytuno?

Ond ...

... yn Bad Säckingen, tref fach yn Ne'r Almaen, mae [amgueddfa](#) arbennig.




[Amgueddfa](#) sbwriel ydy hi, lle mae'n bosib

gweld [hen](#) radios, [hen](#) dedis, [hen deganau](#), [hen](#) glocliau, [hen](#) lestri a Beibl o 1743. Mae'r pethau yma wedi dod o'r [domen](#) sbwriel.

Sut?

Roedd Erich Thomann yn gweithio yn y [domen](#). Roedd e'n gyrru [tarw dur](#). Cyn gyrru'r [tarw dur](#) dros y sbwriel, roedd e'n edrych i weld beth oedd yn y [domen](#) ac roedd e'n [mynd â](#)r pethau gorau i ddechrau'r [amgueddfa](#). Roedd Agnes, [gwraig](#) Erich, yn golchi'r pethau ac yna roedden nhw'n mynd i'r [amgueddfa](#) sbwriel.

hen	old
wedi torri	broken
taflu	(to) throw
amgueddfa	museum






teganau	toys
tomen	tip
tarw dur	bulldozer
mynd â	(to) take
gwraig	wife

Tarw Dur

Tarw = bull

Dur = steel

Tarw dur = bulldozer!



WYTH MUNUD OS GWELWCH YN DDA

Annwyl **Ciwb**,

Mae ysgol yn Lloegr yn dysgu gwersi 8 munud - ie wyth munud! Dw i'n cael gwersi awr yn yr ysgol yma - 60 munud. Maen nhw'n rhy hir.

Sut mae'r gwersi wyth munud yn gweithio?

Mae'r disgyblion yn dysgu rhywbeth am wyth munud, yna maen nhw'n cael [egwyl](#) - brêc. Maen nhw'n chwarae gêm neu maen nhw'n mynd allan i wneud deng munud o chwaraeon. Yna, maen nhw'n dod [yn ôl](#) i'r wers am 8 munud arall ac yn mynd dros y gwaith eto. Yna, maen nhw'n cael [egwyl](#) arall - mwy o gemau neu chwaraeon. Yna, maen nhw'n dod [yn ôl](#) i'r wers ac maen nhw'n mynd dros y gwaith eto - [cyn cael egwyl](#) arall o ddeng munud.

Felly, mewn sesiwn, dw i'n cael 60 munud o wers ond maen nhw'n cael:

- 8 munud o wers
- 10 munud o chwarae
- 8 munud o wers
- 10 munud o chwarae
- 8 munud o wers
- 10 munud o chwarae

Mae'n wych! Mae'n [anhygoel](#)! Mae'n ffantastig!

Pam maen nhw'n dysgu mewn gwersi 8 munud? Achos mae [ymchwil](#) yn dangos bod disgyblion yn dysgu'n [well](#) os ydy'r [ymennydd](#) yn cael egwyl ar ôl 8 munud.

Dw i eisiau gwersi 8 munud!

Hwyl fawr,

Matt Williams

egwyl	break
yn ôl	after
cyn cael	before having
anhygoel	incredible
ymchwil	research
yn well	better
ymennydd	brain

ANIFEILIAID ANWES GWAHANOL

Mae rhai pobl yn cadw anifeiliaid anwes “gwahanol”.

Darllenwch y cliwiau.

Anifail 1

Gogledd Cymru	De Cymru
<p>Mae o'n fawr. Mae ei gorff o tua 158-250cm. Mae ei gynffon o tua 60-100 cm.</p> <p>Mae o'n gryf iawn.</p> <p>Mae o'n frown.</p> <p>Mae ganddo fo bedair coes a phedair pawen.</p> <p>Mae ganddo fo geg fawr a dannedd cryf.</p> <p>Mae o'n bwyta cig.</p> <p>Mae o'n byw yn Affrica fel arfer.</p>	<p>Mae e'n fawr. Mae ei gorff e tua 158-250cm. Mae ei gwt e tua 60-100 cm.</p> <p>Mae e'n gryf iawn.</p> <p>Mae e'n frown.</p> <p>Mae pedair coes a phedair pawen gyda fe.</p> <p>Mae ceg fawr a dannedd cryf gyda fe.</p> <p>Mae e'n bwyta cig.</p> <p>Mae e'n byw yn Affrica fel arfer.</p>

Anifail 2

Gogledd Cymru	De Cymru
<p>Mae o'n hir. Mae ei gorff o tua 4.3 – 5.0 m.</p> <p>Mae o'n gryf iawn.</p> <p>Mae o'n llwyd-wyrdd.</p> <p>Mae ganddo fo bedair coes a thrwyn hir.</p> <p>Mae ganddo fo geg fawr a dannedd cryf.</p> <p>Mae o'n bwyta cig a physgod.</p> <p>Mae o'n byw yn Affrica, Asia neu Awstralia fel arfer.</p>	<p>Mae e'n hir. Mae ei gorff e tua 4.3 – 5.0 m.</p> <p>Mae e'n gryf iawn.</p> <p>Mae e'n llwyd-wyrdd.</p> <p>Mae pedair coes a thrwyn hir gyda fe.</p> <p>Mae ceg fawr a dannedd cryf gyda fe.</p> <p>Mae e'n bwyta cig a physgod.</p> <p>Mae e'n byw yn Affrica, Asia neu Awstralia fel arfer.</p>

Anifeiliaid gwahanol

Mae rhai pobl yn Mhrydain yn cadw anifeiliaid anwes "[anarferol](#)" iawn. Dyma rai o'r anifeiliaid anwes "[anarferol](#)":

Anifeiliaid Anarferol



300+

mwy na 300
o nadroedd gwenwynig



145

145 estrys



13

13 teigr



10

10 aligator



9

9 crocodeil



9

9 pwma



8

8 llewpard



7

7 tsita




2

2 lew


Bobl bach!

corff	body
cynffon	tail
cwt	tail
cryf	strong





pawen	paw
dannedd	teeth
llwyd-wyrdd	grey-green
trwyn	nose
anarferol	unusual
estrys	ostrich
llewpard	leopard





DWY OCHR

Edrychwch ar y llun yma'n ofalus.



Edrychwch ar yr eirfa yma

fflatiau

flats,
apartments

fffenestri

windows



balconïau	balconies
-----------	-----------

baner	flag
-------	------

sachau	sacks
--------	-------

cytiau	shanties
--------	----------

lein ddillad	clothes line
-----------------	--------------


sychu	(to) dry
-------	----------

blancedi	blankets
----------	----------

cynfasau	sheets
----------	--------

Disgrifio

smart	smart
-------	-------





crand	grand
enfawr	huge
budr/brwnt	dirty
di-raen	drab
lliwgar	colourful
anniben/blêr	untidy
wedi torri	broken

Ewch i'r tasgau.

